

Mr Kevin Shields
Mental Health Care (New Hall) Limited
Alexander House
Highfield Park
Llandyrnog
Sir Ddinbych
LL16 4LU

Llinell Uniongyrchol: 02920 928916
Rhif ffacs: 02920 928914
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref New Hall

18 Mawrth 2013

Annwyl Mr Shields,

Ymweliad a gynhaliwyd â New Hall ar 21 a 22 Chwefror 2013

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Ysbyty Annibynnol New Hall, Rhiwabon ar 21 a 22 Chwefror 2013. Amlygodd yr ymweliad feysydd nodedig a oedd yn cynnwys:

- Yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael i'r cleifion.
- Cyfranogiad da gan y teuluoedd, a hynny'n cael ei annog gan staff yr ysbyty i gyd.
- Boddhad cyffredinol â'r arlwy a'r dewis o fwyd a gynigid.
- Lefel dda a chefnogol o wasanaeth eirioli ym mhob rhan o'r ysbyty.
- Ymgysylltiad da gan y staff yn y broses arolygu.

Fodd bynnag, amlygodd yr ymweliad hefyd nifer o faterion y mae angen rhoi sylw iddynt. Rhoddwyd crynodeb cyffredinol o'n pryderon ar lafar i'ch rheolwr cofrestredig ac aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol ar ddiwedd ein hymweliad ar 22 Chwefror 2013, a cheir crynodeb o'r rhain, a'r achosion o dorri'r rheoliadau a nodwyd, dros y dudalen:

Testun pryder	Rheoliad
1. Mae angen cynnal adolygiad ar frys o'r lefelau staffio ar ward Glaslyn. Nid yw'r staffio yn ddigonol ar y ward hon gan fod claf yn cael ei arsylwi 3:1.	Rheoliad 20 (1) (a)
2. Roedd penderfyniadau'n parhau i gael eu gwneud ar sail fymrwyl, er gwaethaf cadarnhad gennych yn dilyn ein hymweliad blaenorol fod hyn wedi derbyn sylw. Ar ward Clwyd, roedd y cleifion wedi eu cyfyngu i gael dim mwy na 10 CD/DVD yn eu hystafell wely, ac 20 oedd nifer y disgiau a ganiateid ar ward Glaslyn. Dylid seilio penderfyniadau ar asesiad risg unigol ac nid ar un rheol gyffredinol ar gyfer pawb.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) a 19 (1) (a) a (b)
3. Mae angen i'r staff gael hyfforddiant mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), iechyd a diogelwch, atal argyfwng ac ataliad corfforol. Mae'r rhaid i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant diweddar yn y meysydd a nodwyd.	Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a)
4. Roedd y lefelau diogelwch ar ward Clwyd a ward Adferiad yn ymddangos yn amhriodol, o ystyried mai wardiau adsefydlu oeddent. Mae angen cynnal adolygiad o'r lefelau diogelwch er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhy llym.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b) 26 (2) (a)
5. Nodwyd nifer o faterion amgylcheddol yn ystod ein hymweliad. Roedd angen ailaddurno ward Clwyd a ward Adferiad. Yn benodol, roedd angen paentio'r waliau a gosod gorchudd llawr yn lle'r hen un; roedd y gwaith growtio yn yr ystafelloedd ymolchi wedi llwydo; roedd angen cael gwared ar rai ffitiadau golau; ac roedd rhai dodrefn wedi torri, ac wedi eu trwsio'n wael. Mae'n rhaid llunio rhaglen gyflawn o ailaddurno, adnewyddu ac atgyweirio cyffredinol sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ar y ddwy ward mewn modd amserol.	Rheoliad 26 (2) (b)
6. Nid oedd Therapydd Galwedigaethol yn gweithio ar ward Glaslyn. Mae'n bwysig penodi Therapydd Galwedigaethol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael digon o therapi galwedigaethol.	Rheoliad 20 (1) (a)
7. Roedd rhai aelodau o staff asiantaeth wedi gweithio nifer sylweddol o oriau mewn un wythnos - roedd un gweithiwr asiantaeth wedi cofnodi 73 awr a 50 munud. Rhaid i'r staff beidio â gweithio oriau gormodol.	Rheoliad 18 (2) (a) a (b)

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **2 Ebrill 2013** yn egluro'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â phob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion yr unigolyn a fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r camau gweithredu. Ar ôl i AGIC gytuno bod y cynllun yn briodol, bydd yn ofynnol i chi ein hysbysu unwaith y mis am yr hyn a gyflawnwyd.

Ar ôl derbyn eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu, yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Gallem gynnal ymweliad arall er mwyn sicrhau bod y materion uchod wedi derbyn sylw priodol, a byddwn yn cynnal ymweliadau mwy aml pe byddai gennym bryderon nad yw'r camau gweithredu gofynnol yn cael eu cymryd yn brydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi pe byddech yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Sean Holcroft yn Ysbyty New Hall.

Yn gywir

Mr John Powell

Pennaeth Rheoleiddio

copi – Mr Sean Holcroft, Ysbyty Annibynnol New Hall, New Hall Road, Rhiwabon, LL14 6HB